Ysgol Cymerau

Ffordd Mela, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AR
01758 612001 RhysWilliams2@gwynedd.gov.uk
Pennaeth / Headteacher — E. Rhys Williams

# Datganiad Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Cymerau 2017-18

Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GDD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwyso ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2017-18 rhoddwyd i Ysgol Cymerau ddyraniad Grant Datblygu Disgyblion o £67,050.

Yn Ysgol Cymerau mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Gwynedd a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Dargedu disgyblion PYD (Llythrennedd – sgiliau darllen)
- Cyflogi athrawes rhan amser i leihau maint dosbarthiadau gan sicrhau bod disgyblion PYD yn derbyn addysg Llythrennedd a Rhifedd mewn dosbarthiadau o lai na 30
- Cyfrannu at gostau Clwb ar ôl Ysgol fel bod disgyblion PYD yn cael mynediad i'r ysgol o 8:10yb hyd at 5:00yh heb gost i rieni

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.